

15.10.20

Wythnos Ddigidol Darganfod! Gyrfaoedd Creadigol (23-27 Tachwedd 2020)

Y diwydiant diwylliannol yng Nghymru yn addysgu'r genhedlaeth nesaf am yrfaoedd creadigol

Sgiliau Creadigol a Diwylliannol yn lansio rhaglen weithgareddau ledled Cymru i sicrhau y gall doniau mwy amrywiol ymgeisio am yrfaoedd yn y diwydiannau creadigol.

Rydym wedi cyffroi bod y diwydiant yn gosod ei hun wrth galon ymdrechion i ddylanwadu a hysbysu pobl ifanc yng Nghymru am ehangder y swyddi ar draws y diwydiannau creadigol. Bydd Wythnos Ddigidol Darganfod! Gyrfaoedd Creadigol yn gweithio i gefnogi amrywiaeth eang o bobl ifanc i ddysgu am swyddi go iawn gan y rheiny sy'n eu gwneud, taflu goleuni ar yr ystod eang o sgiliau sydd eu hangen ar y sector ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf i ystyried y gyrfaoedd creadigol sydd ar gael iddynt hwy.

Yn fenter gyda Rhaglen Gyrfaoedd Creadigol Cymru (CCP Cymru), bydd Wythnos Ddigidol Darganfod! Gyrfaoedd Creadigol yn darparu rhaglen yrfaoedd ar-lein yn seiliedig ar y diwydiant sydd ar gael i ysgolion, ymgynghorwyr gyrfaoedd, pobl ifanc a phobl sy'n newydd i'r sector, y gellir ei defnyddio yn ystod yr wythnos ei hun ac ar ôl hynny, pan fydd ar gael ar wefan discovercreative.careers a [Sianel YouTube Darganfod! Gyrfaoedd Creadigol](https://www.youtube.com/watch?v=...).

Drwy gydol yr wythnos, caiff pobl ifanc glywed gan amrywiaeth o arbenigwyr y diwydiant ynglŷn â'u teithiau gyrfaol.

Dywedodd **yr Arglwydd Elis-Thomas, y Dirprwy Weinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth:**

"Mae sgiliau wedi eu cydnabod fel blaenoriaeth ar gyfer Cymru Greadigol. Fel diwydiant sy'n tyfu'n gyflym yng Nghymru, mae'n bwysig ein bod yn gallu ateb y galw cynyddol am weithlu medrus ar draws ehangder y sector Diwydiannau Creadigol - ac rydym yn falch iawn o gefnogi Sgiliau Creadigol a Diwylliannol ar raglen sy'n gweithio gyda phobl ifanc i godi ymwybyddiaeth a diddordeb yn yr amrywiaeth o gyfleoedd gyrfaoedd creadigol sydd ar gael yn y sector."

Dywedodd **Pauline Burt, Prif Weithredwr Ffilm Cymru:**

"Mae Ffilm Cymru yn falch iawn o fod yn cydweithio â'r rhaglen bwysig hon sy'n anelu at wella gallu ac amrywiaeth y sector. Mae hyn yn ymwneud â chodi ymwybyddiaeth o'r ystod eang o swyddi sydd ar gael yn y sector; y sgiliau trosglwyddadwy sy'n berthnasol a'r llwybrau tuag at y sector a'r llwybrau datblygu drwy'r sector."

Mae'r rhaglen CCP Cymru ar flwyddyn beilot, ac eisoes wedi darparu sesiynau hyfforddi i 225 o ymgynghorwyr gyrfaoedd ledled Cymru, gan gefnogi eu dealltwriaeth o'r swyddi amrywiol yn y sector, a throsglwyddedd sgiliau a swyddi o un maes i'r llall.

Digwyddiad terfynol y rhaglen 2020 yw darparu cynhadledd ar-lein ar 9 Rhagfyr. Bydd ymgynghorwyr gyrfaedd yn ymgysylltu ag arbenigwyr y diwydiant mewn sesiynau rhyngweithiol lle arddangosir sgiliau sy'n benodol i'r sector. Nod hyn yw gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymgynghorwyr gyrfaedd ynglŷn â'r ehangder cyfleoedd yn y diwydiannau creadigol, a gwella'r cyngor ac arweiniad a roddir i bobl ifanc.

Dywedodd **Karen Newman, Cyfarwyddwr Ariannol a Phrif Weithredwr Dros Dro, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol:**

"Rydym yn cydnabod bod canllawiau ynghylch yr ystod o alwedigaethau yn ein sector yn brin, ac mae argaeledd cyfleoedd yn aml wedi ei gamddeall gan bobl ifanc a'r rheiny sy'n gweithio gyda nhw. Rydym eisiau helpu i newid hyn fel bod ystod ehangach o ddoniau yn gallu cael mynediad at weithlu'r diwydiannau creadigol yng Nghymru, gan ei helpu i ffynnu am flynyddoedd i ddod."

Dywedodd **Seetha Kumar, Prif Weithredwr ScreenSkills:**

"Fel corff sgiliau diwydiannau sgrin y DU, rydym yn falch iawn o fod yn gweithio gyda'n cydweithwyr yng Nghymru yn helpu i lywio ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ddoniau ynghylch y cyfleoedd mewn ffilm a theledu, effeithiau gweledol, animeiddio a gemau. Mae'n bwysig agor y sector i amrywiaeth ehangach o ddoniau a bydd y rhaglen hon yn cyfrannu at gyflawni'r nod hwnnw."

Mae CCP Cymru yn dilyn llwyddiant y Rhaglen Gyrfaedd Creadigol yn Lloegr, a gafodd ei lansio yn 2019 ac a ddarparodd dros 1000 o brofiadau ymarferol a chyflwyno dros 90,000 o bobl ifanc i'r amrywiaeth o swyddi yn y sector diwylliannol. Bydd y rhaglen hon yn parhau â'i Hwythnos Ddigidol Darganfod! ei hun yn gynnar yn 2021, mewn partneriaeth â ScreenSkills a Ffederasiwn y Diwydiannau Creadigol.

Wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Cymru Greadigol, mae **Rhaglen Gyrfaedd Creadigol Cymru (CCP Cymru)** yn cael ei harwain gan Sgiliau Creadigol a Diwylliannol mewn partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru, Ffilm Cymru, ScreenSkills a Trac Cymru.

-DIWEDD-

Nodiadau i Olygyddion

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Sarah Mair Hughes, Pennaeth Partneriaethau, Cymru ac Arweinydd y Cenhedloedd, Sgiliau Creadigol a Diwylliannol sarah.hughes@ccskills.org.uk

Gwaith **Sgiliau Creadigol a Diwylliannol** yw creu sector diwylliannol teg a medrus drwy fireinio sgiliau ac arfer orau mewn addysg a chyflogaeth. Rydym yn ysgogi gweithredoedd ac yn darparu cyfleoedd dysgu sy'n creu newid, a helpu i adeiladu sector medrus a chynhwysol drwy: hysbysu a helpu'r sector i ymateb i newidiadau yn y system addysg dechnegol; helpu cyflogwyr i weld y manteision o weithlu cynhwysol; gwella dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r opsiynau gyrfaol ar draws y sector diwylliannol, ac yn ei dro, yn bwydo dawn newydd i'r gweithlu a chefnogi'r sector i barhau i dyfu'n economaidd a bodloni nodau amrywiaeth.

Mae **Trac Cymru** yn datblygu sîn gerddoriaeth werin Cymru drwy danio diddordeb, meithrin doniau a chyflwyno cerddorion gwerin gorau Cymru ar draws y byd. Byddwch yn gweld Trac yn gweithio mewn ysgolion, lleoliadau cymunedol, ar gaeau Gwyliau ac mewn digwyddiadau arddangos rhyngwladol, yn helpu i sicrhau bod traddodiad celfyddydau Cymru yn parhau i gyfoethogi bywydau, waeth beth fo oed, cefndir, hil neu iaith unrhyw un.

Mae **Ffilm Cymru** wedi ymrwymo i ddatblygu a chynnal diwydiant ffilm cryf yng Nghymru; un y gallwn ni oll ymfalchio ynddo. Rydym yn gwneud hyn drwy gynnig cyllid a hyfforddiant i'r rheiny sy'n ymwneud â phob agwedd ar y sector ffilm, annog pobl i wyllo mwy o ffilmiau Cymreig mewn mwy o leoliadau, a hyrwyddo'r defnydd o ffilm mewn addysg a rhaglenni adfywio cymunedol. Mae ystod eang o raglenni hyfforddi Ffilm Cymru yn cynnwys eu cynnig Troed yn y Drws llwyddiannus, sy'n cefnogi unigolion sy'n wynebu heriau cymdeithasol economaidd i gymhwyso eu sgiliau yn y diwydiant creadigol; mentora, digwyddiadau rhwydweithio ac adnoddau ar gyfer gwneuthurwyr ffilmiau newydd ar ddechrau eu gyfaoedd, drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer gwneuthurwyr ffilmiau sefydledig, gan eu cefnogi i wneud y mwyaf o'u syniadau a'u busnesau.

Mae **Cyngor Celfyddydau Cymru** yn darparu cyllid gan Lywodraeth Cymru a'r Loteri Genedlaethol. Mae'r rhan fwyaf o'n cyllid yn mynd i artistiaid a sefydliadau celfyddydol i gynnal rhaglenni gwaith ledled Cymru. Rydym yn helpu pobl i greu, cyflwyno ac arddangos y celfyddydau. Rydym yn gweithio gydag artistiaid a sefydliadau i gyrraedd cymaint o bobl ag sy'n bosibl. Ac rydym yn ymchwilio i ffyrdd o ddiogelu a chynnal gweithgareddau creadigol yng Nghymru. Mae dysgu creadigol drwy'r celfyddydau - cynllun gweithredu ar gyfer Cymru, yn rhaglen sydd wedi ymrwymo i wella cyfleoedd a phrofiadau yn ymwneud â'r celfyddydau i bobl ifanc yn ysgolion ledled Cymru.

ScreenSkills yw corff sgiliau diwydiannau sgrin y DU - animeiddio, ffilmiau, gemau, teledu gan gynnwys teledu plant a dramâu proffil uchel, VFX a thechnoleg ymgollol. Rydym yn gweithio ar draws y wlad yn sicrhau bod sgrin y DU yn cael mynediad at y sgiliau a'r doniau sy'n ofynnol ar gyfer llwyddiant parhaus, heddiw ac yfory. Rydym yn cael ein cefnogi gan gyfraniadau diwydiant at ein Cronfa Sgiliau mewn ffilm, teledu proffil uchel, teledu, teledu plant ac animeiddio, gan gronfeydd y Loteri Genedlaethol a ddyfarnir gan y BFI a gwobrau gan sefydliadau partner fel Cyngor Celfyddydau Lloegr.



GYRFAOEDD CREADIGOL
CREATIVE CAREERS

